# Ymateb y Cyngor Optegol Cyffredinol i'r ymgynghoriad ar ganllawiau drafft: Gofalu am gleifion mewn amgylchiadau agored i niwed a chadw at ffiniau rhywiol priodol

## 2025 Rhagfyr

---

## Cynnwys


**Cyflwyniad** ..... 5

**Cefndir yr ymgynghoriad** ..... 5

**Y broses ymgynghori** ..... 5

**Dull o gynhyrchu'r ymateb hwn** ..... 6

**Y camau nesaf** ..... 6

**Ymatebion i'r canllawiau** ..... 7

**Adran 1: Gofal cleifion mewn amgylchiadau agored i niwed;** ..... 10

**Agwedd tuag at fod yn agored i niwed** ..... 10

**Canllawiau ychwanegol ar gyfer rheoli rhiant, gofalwr neu hebryngwr sy'n dod gyda chlaf mewn amgylchiadau agored i niwed** ..... 12

**Egluro'r gofynion cyfreithiol** ..... 14

**Awgrymiadau y tu hwnt i'n cylch gwaith** ..... 15

**Eglurhad o'r hyn y mae 'gwaith' yn ei olygu** ..... 16

**Adran 2: Cadw at ffiniau rhywiol priodol** ..... 19

**Pan nad yw camymddwyn rhywiol yn cael ei ystyried yn “ddifrifol”** ..... 19

**Cwmpas y canllawiau** ..... 20

**Datblygu gyrfa** ..... 22

**Cefnogaeth i gofrestreion** ..... 23

**Ymddygiad amhriodol rhwng cydweithwyr** ..... 25

**Cynnal ffiniau ar-lein** ..... 26

**Materion yn ymwneud â mynediad a dewis cleifion** ..... 26

**Adran 5: Meysydd eraill** ..... 30

**Asesiad o’r effaith** ..... 30

**Y Gymraeg** ..... 31

**Crynodeb gweithredol**

1. Y Cyngor Optegol Cyffredinol yw’r rheoleiddiwr ar gyfer y proffesiynau optegol yn y DU. Ar hyn o bryd, mae tua 35,000 o optometryddion, optegwyr cyflenwi, myfyrwyr optegol, a busnesau optegol wedi’u cofrestru â ni.

2. Ym mis Ionawr 2025 fe wnaethom gyflwyno tair set o safonau wedi’u diweddaru, sef Safonau Ymarfer ar gyfer Optometryddion ac Optegwyr Cyflenwi, Safonau ar gyfer Myfyrwyr Optegol a Safonau ar gyfer Busnesau Optegol.

3. Fe wnaethom ddatblygu canllawiau newydd ar ofalu am gleifion mewn amgylchiadau agored i niwed a chynnal ffiniau rhywiol priodol i helpu cofrestreion i ddeall y safonau newydd roeddem wedi'u hychwanegu ar y pynciau hynny.

4. Fe wnaethom ymgynghori ar y canllawiau drafft hyn rhwng 29 Gorffennaf 2025 a 21 Hydref 2025. Cawsom 23 o ymatebion i'r ymgynghoriad gan amrywiaeth o randdeiliaid.

5. Roedd rhai ymatebwyr yn croesawu'r canllawiau drafft, gan gydnabod eu gwerth o ran helpu cofrestreion i gydymffurfio â'r safonau newydd. Cawsom awgrymiadau hefyd i wella'r canllawiau.

6. Ar gyfer y canllawiau ar ofalu am gleifion mewn amgylchiadau agored i niwed, gwnaeth ymatebwyr sylwadau ar y canlynol:
   - hyd a lled ein diffiniad o fod yn agored i niwed;
   - newidiadau golygyddol, megis geiriad penodol i wneud y canllawiau'n fwy eglur neu ychwanegu cyfeiriadau at ddeddfwriaeth berthnasol; a hefyd
   - yr angen am ragor o fanylion o ran enghreifftiau ymarferol, cyfeirio ychwanegol, neu fwy o ganllawiau ar bynciau penodol.

7. Ar gyfer cadw ffiniau rhywiol priodol, soniodd ymatebwyr am y canlynol:
   - yr angen am fwy o eglurder neu fanylion mewn rhai meysydd;
   - mwy o bwyslais ar ddiogelu cofrestreion; a hefyd
   - a ddylai'r canllawiau gynnwys pob perthynas, nid dim ond 'perthnasoedd rhywiol'.

8. Rydym wedi ystyried yn ofalus yr adborth a gawsom ac wedi gwneud newidiadau i'r ddau ganllaw, yn enwedig lle mae awgrymiadau golygyddol wedi gwella eglurder a lle mae newidiadau mewn pwyslais wedi cryfhau'r canllawiau, fel egluro nad yw addasiadau i ddiwallu anghenion cleifion mewn amgylchiadau agored i niwed yn 'addasiadau rhesymol' fel sy'n ofynnol gan y gyfraith, a phwysleisio bod pob camymddwyn rhywiol yn ddifrifol.

9. Yn y ddau ganllaw, rydym wedi ceisio taro cydbwysedd rhwng bod o gymorth ac osgoi rhagnodi manwl. Mae angen i'r canllawiau hyn barhau i fod yn addas ar gyfer y dyfodol a chynnig digon o le i gofrestreion arfer eu barn broffesiynol eu hunain fel sy'n ofynnol gan sefyllfaoedd unigol. Er ein bod wedi adolygu'r holl awgrymiadau ar gyfer rhagor o fanylion, nid ydym wedi ychwanegu'r holl fanylion y gofynnwyd amdanynt.

## Cyflwyniad

10. Mae'r Cyngor Optegol Cyffredinol yn un o nifer o sefydliadau yn y DU sy'n cael eu galw'n rheoleiddwyr iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r sefydliadau hyn yn goruchwylio'r proffesiynau iechyd a gofal cymdeithasol drwy reoleiddio gweithwyr proffesiynol unigol a rhai busnesau/safleoedd. Ni yw'r rheoleiddiwr ar gyfer y proffesiynau optegol yn y DU. Ar hyn o bryd, mae tua 35,000 o optometryddion, optegwyr cyflenwi, myfyrwyr optegol, a busnesau optegol wedi'u cofrestru â ni.

11. Mae gennym bedair prif swyddogaeth:
    - gosod safonau ar gyfer perfformiad ac ymddygiad ein cofrestrwyr;
    - cymeradwyo cymwysterau sy'n arwain at gofrestru;
    - cadw cofrestr o unigolion sy'n addas i ymarfer neu hyfforddi fel optometryddion neu optegwyr cyflenwi, a chyrff corfforaethol sy'n addas i redeg busnes fel optometryddion neu optegwyr cyflenwi;
    - ymchwilio a gweithredu os bydd amhariad ar addasrwydd cofrestreion i ymarfer, hyfforddi neu gynnal busnes.

## Cefndir yr ymgynghoriad

12. Roedd yr ymgynghoriad hwn yn gofyn am farn ar ddau ganllaw i gefnogi dealltwriaeth cofrestreion o safonau newydd a gyflwynwyd ym mis Ionawr 2025. Fe wnaethom ymgynghori ar ganllawiau ar y canlynol:
    - gofalu am gleifion mewn amgylchiadau agored i niwed, a hefyd
    - cadw at ffiniau rhywiol priodol.

## Y broses ymgynghori

13. Roedd ein hymgynghoriad ar ganllawiau drafft ar agor am 13 wythnos rhwng 29 Gorffennaf a 21 Hydref 2025.

14. Cawsom 23 o ymatebion i'r ymgynghoriad gan amrywiaeth o randdeiliaid. Ymhlith y rhain roedd:
    - pedwar optometrydd;
    - un optegydd cyflenwi;
    - dau optegydd lensys cyffwrdd;
    - dau optometrydd presgripsiynu therapiwtig;
    - pump o optometryddion dan hyfforddiant;
    - wyth corff cynrychiadol/proffesiynol optegol; a hefyd
    - un corff cynrychiadol cleifion a darparwr gwasanaethau optegol.

15. Dyma'r sefydliadau a oedd yn fodlon cael eu henwi:
    - Cymdeithas Optegwyr Cyflenwi Prydain (ABDO)
    - Cymdeithas yr Optometryddion (AOP)

- Bexley, Bromley a Greenwich LOC [Pwyllgor Optegol Lleol]
- Coleg yr Optometryddion.
- Ffederasiwn yr Optegwyr Offthalmig a Chyflenwi (FODO)
- Optometreg Cymru
- Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- SeeAbility
- Pwyllgor Optometrig Cymru

16. Rydym yn ddiolchgar am yr holl adborth a gawsom ac rydym wedi'i ystyried wrth ddrafftio ffurfiau terfynol y canllawiau hyn.

**Dull o gynhyrchu'r ymateb hwn**

17. Ar gyfer yr ymgynghoriad, fe wnaethom ganolbwyntio ein cwestiynau ar ble gallem wella'r canllawiau, gan ofyn sut gallem wneud y canllawiau'n gliriach ac a oedd unrhyw beth ar goll o'r canllawiau. O ganlyniad, rhoddodd llawer o'r cyflwyniadau adborth manwl, gan awgrymu newidiadau drafftio neu dynnu sylw at bwyntiau lle roeddent yn teimlo bod angen i ni roi mwy o eglurder.

18. Gwnaethom adolygu pob sylw a dderbyniwyd. Ni allwn gynnwys ymatebion unigol i'r holl sylwadau hyn yn y ddogfen hon ond rydym wedi cyflwyno sampl o'r sylwadau a gawsom sy'n cynrychioli'r prif feysydd adborth, ochr yn ochr â'n hymatebion.

19. Mae unrhyw sylwadau sydd wedi'u cynnwys yn cael eu cynhyrchu air am air, er ein bod wedi gwneud mân gywiriadau i wallau sillafu a/neu ramadegol lle roeddem o'r farn bod y rhain yn amlwg.

20. Rydym ond wedi cynnwys sylwadau lle mae'r ymatebydd wedi cydsynio i'w ymateb gael ei gyhoeddi (naill ai ochr yn ochr â'i enw neu'n ddienw.) Ein harfer ni yw peidio â chynnwys enwau ymatebwyr unigol, hyd yn oed pan fyddant wedi rhoi eu caniatâd i ni gyhoeddi eu hymateb.

**Y camau nesaf**

21. Rydym yn cyhoeddi'r canllawiau terfynol ochr yn ochr â'r ddogfen hon.

**Ymatebion i'r canllawiau**

22. Ar gyfer yr ymgynghoriad, fe wnaethom ganolbwyntio ein cwestiynau ar feysydd ble gallem wella'r canllawiau, gan ofyn sut gallem wneud y canllawiau'n gliriach ac a oedd unrhyw beth ar goll o'r canllawiau. Rydym wedi cyflwyno'r adborth manwl yn yr adrannau canlynol.

23. Fodd bynnag, roedd llawer o'r ymatebion yn croesawu cyflwyno un canllaw, neu'r ddau, gan nodi eu bod yn atodiad defnyddiol i'r safonau ac y byddant yn cefnogi cofrestreion i gydymffurfio â'r safonau newydd.

24. Mae sampl o sylwadau ar gael yn y blwch ar y dudalen ganlynol.

'Dyma ganllawiau clir a defnyddiol sydd, yn ein barn ni, yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng eglurder a manylion - gan ei wneud yn ddefnyddiol i bawb.'

FODO - Ffederasiwn yr Optegwyr Offthalmig a Chyflenwi

*“Rydym yn croesawu'r ffaith bod y Cyngor Optegol Cyffredinol yn cynhyrchu canllawiau ychwanegol i gofrestreion ar ofalu am gleifion mewn amgylchiadau agored i niwed, i ategu'r safonau presennol.”*

SeeAbility

*“Mae hon yn ddogfen drylwyr yn ei dadansoddiad o'r mesurau diogelu sydd ar waith i staff yn y gweithle ac i gleifion yn yr amgylchedd optegol, ac rydym yn cefnogi'r egwyddorion cyffredinol sydd ar waith.”*

Pwyllgor Optegol Lleol Bexley, Bromley a Greenwich

“HAPUS IAWN GYDA'R CANLLAW”

Optegydd lensys cyffwrdd

*“Mae'r canllawiau drafft hyn yn ddefnyddiol iawn ac rydym o'r farn, gydag ychydig o fân esboniadau, y bydd yn ddogfen ddefnyddiol iawn i gofrestreion ymgynghori â hi.'*

Cymdeithas Optegwyr Cyflenwi Prydain - ABDO

Gall helpu cofrestreion i ddeall a bodloni safonau helpu i atal camymddwyn. Mae bodolaeth safonau clir a chadarn hefyd yn helpu i roi hyder i gleifion am y gofal y dylent ddisgwyl ei gael, a gall helpu cleifion a gweithwyr proffesiynol eraill i nodi lle mae gofal neu ymddygiad yn methu â chyrraedd y nod.”

Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

*Ymateb Y Cyngor Optegol Cyffredinol*

25. Rydym yn falch bod rhai rhanddeiliaid wedi gweld gwerth yn y canllawiau hyn. Rydym yn gobeithio y bydd yn cefnogi cofrestreion i ddeall a chynnal y safonau a gyflwynwyd gennym ym mis Ionawr 2025 yn well.

## Adran 1: Gofal cleifion mewn amgylchiadau agored i niwed;

### Agwedd tuag at fod yn agored i niwed

26. Mae’r Cyngor Optegol Cyffredinol yn cydnabod y gall cleifion fod yn agored i niwed am amrywiaeth o resymau, gan gynnwys cyflyrau iechyd corfforol neu feddyliol, y gallu i reoli eu hiechyd, neu ddelio â set anodd o ddigwyddiadau bywyd. Gall lefelau agored i niwed amrywio rhwng cyd-destunau, a newid dros amser, felly dylai cofrestreion ystyried pa mor agored i niwed yw claf fel rhan o bob ymgynghoriad.

27. Er bod rhywfaint o ganmoliaeth i'n dull gweithredu ar gyfer bod yn agored i niwed, a'n dealltwriaeth ohono, dywedodd rhai ymatebwyr fod ein dull gweithredu ar gyfer bod yn agored i niwed yn rhy eang ac awgrymodd eraill y byddai'n gliriach pe baem yn cydnabod gwendidau penodol yn benodol.

28. Mae sampl o sylwadau ar gael yn y blwch isod.

*"Rhaid cynnwys ANABLEDDAU dysgu ac ANABLEDDAU corfforol"*

Optometrydd

*'Gellid cynnwys canllawiau ar yr egwyddorion ar gyfer ymateb i gleifion sydd â thrawma gofal iechyd blaenorol.'*

Coleg yr Optometryddion.

“Gellid ehangu'r paragraff hwn i gynnwys lefelau dros dro a datblygol o fod yn agored i niwed.”

Pwyllgor Optometrig Cymru

"Mae Paragraff 14 ar ddiffinio "amgylchiadau agored i niwed" yn rhy eang”

Cymdeithas yr Optometryddion

*“Rydym yn croesawu’r gwaith o ddatblygu canllawiau ar wahân sy'n mynd i'r afael yn benodol â gofal cleifion mewn amgylchiadau agored i niwed, a'r gydnabyddiaeth ynddo y gall gwendidau godi o amgylchiadau, nid nodweddion personol yn unig, ac y gallant newid dros amser. Hyd y gwyddom, y Cyngor Optegol Cyffredinol yw'r unig reoleiddiwr gofal iechyd proffesiynol sydd â chanllawiau annibynnol penodol ar y pwnc hwn.*

Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

*Ymateb Y Cyngor Optegol Cyffredinol*

29. Mae ein hagwedd at fod yn agored i niwed yn dilyn arferion gorau o wahanol sectorau sy'n cael eu rheoleiddio. Rydym yn egluro beth rydym yn ei olygu wrth sôn am amgylchiadau agored i niwed ym mharagraffau 12-17 y canllawiau, gan fabwysiadu'r diffiniad a ddefnyddir yn ein safonau. Mae perygl y bydd canolbwyntio ar wendidau penodol yn gwanhau'r ddealltwriaeth eang o fod yn agored i niwed rydym yn ei hyrwyddo yn y canllawiau hyn, ond i fod yn fwy penodol, rydym wedi ychwanegu cyflyrau ac anableddau iechyd corfforol at y rhestr nad yw'n gynhwysfawr o fathau o fod yn agored i niwed ym mharagraff 14. Nid yw bod yn agored i niwed wedi'i gyfyngu i ystyriaethau fel salwch neu anabledd ac nid yw lefel unigolyn o fod yn agored i niwed yn aros yr un fath ym mhob cyd-destun. Gall pob un ohonom fod yn agored i niwed ar wahanol adegau yn ein bywyd, efallai oherwydd ein bod mewn argyfwng neu oherwydd ein bod yn delio ag elfennau anodd o amgylchiadau bywyd.

30. Mae ein hymchwil yn dangos bod arwyddion o fod yn agored i niwed yn gallu gwneud pobl yn llai tebygol o fynd i bractis gofal llygaid neu fod yn llai bodlon â'r gwasanaeth maen nhw'n ei gael.

31. Gan fod cofrestreion yn debygol o ryngweithio â chleifion mewn amgylchiadau agored i niwed eang yn rheolaidd fel rhan o'u hymarfer, mae'n hanfodol eu bod yn gallu adnabod, cefnogi a thrin y cleifion hyn yn briodol.

32. Dyma'r dull gweithredu sy'n sail i'r safonau diwygiedig a gyflwynwyd gennym ym mis Ionawr 2025. Gan mai pwrpas y canllawiau yw cefnogi cofrestreion i gyrraedd ein safonau, mae'n bwysig bod cysondeb yn y diffiniadau a'r dull gweithredu ar draws y ddwy ddogfen.

**Canllawiau ychwanegol ar gyfer rheoli rhiant, gofalwr neu hebryngwr sy'n dod gyda chlaf mewn amgylchiadau agored i niwed**

33. Gofynnodd rhai ymatebwyr am fanylion ychwanegol i helpu cofrestreion i reoli trydydd partïon a allai ddod gyda chlaf agored i niwed pan fydd yn cael triniaeth. Gallai hyn gynnwys rhiant, gofalwr neu hebryngwr yn dod gyda'r claf.

34. Mae sampl o sylwadau ar gael yn y blwch ar y dudalen ganlynol.

General Optical Council

*“Mewn llawer o achosion, byddai claf mewn amgylchiadau agored i niwed yn mynd i leoliad gofal iechyd gydag aelod o'r teulu, gofalwr neu ffrind. Gall canllawiau fod yn fuddiol ar reoli cydsyniad, a pha ddata a gwybodaeth am gleifion y dylid eu rhannu â'r aelod hwnnw o'r teulu, y gofalwr neu'r ffrind.* Yn ogystal, byddai canllawiau ar sut i reoli sgyrsiau ynghylch hebrwng y claf yn yr apwyntiad yn ddefnyddiol.

Coleg yr Optometryddion.

Byddai'n ddefnyddiol ymhelaethu ar y canllawiau sy'n ymwneud â’r canlynol:

*- sgyrsiau ymarferwyr ynghylch hebrwng y claf*

*- sgyrsiau ymarferwyr ynghylch rheoli cydsyniad pan fydd teulu/gofalwyr yn dod gyda chlaf agored i niwed.”*

Optometreg Cymru

*Ymateb Y Cyngor Optegol Cyffredinol*

35. Rydym wedi diwygio'r canllawiau i gydnabod yn benodol y rôl bwysig y mae teuluoedd a gofalwyr yn ei chwarae o ran cefnogi cleifion i gael gofal llygaid effeithiol. Gall y cyfnodau gofal hyn a'r sgyrsiau y mae angen eu cynnal fod yn fwy cymhleth.

36. Mae safon 3(3) yn ei gwneud yn ofynnol i gofrestreion unigol gael cydsyniad dilys gan gynnwys gan rywun sydd wedi'i awdurdodi i weithredu ar ran y claf. Rydym hefyd wedi cyhoeddi canllawiau annibynnol ar ganiatâd y dylid eu darllen ar y cyd â'r canllawiau hyn ac sy'n mynd i'r afael â'r materion hyn yn fanylach.

37. Mae paragraff 38 o'r canllawiau'n cynghori cofrestreion i ofyn am help os nad ydynt yn siŵr sut i addasu eu hymarfer, gan gynnwys o ran sut i reoli cydsyniad yn yr amgylchiadau hyn ac efallai y bydd rôl i gyrff proffesiynol neu gynrychiadol gynnig lefel uwch o arweiniad a chymorth manwl yma. Mae paragraffau 41 a 42

yn cyfeirio at bolisïau a gweithdrefnau busnesau sy'n gallu helpu i ofalu am gleifion mewn amgylchiadau agored i niwed. Gallai'r mathau hyn o ddogfennau gynnig cymorth mwy ymarferol i gofrestreion sydd wedi'u teilwra i'r sefyllfaoedd penodol lle rhoddir gofal.

**Egluro'r gofynion cyfreithiol**

38. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai'r canllawiau wahaniaethu'n gliriach rhwng y gofynion cyfreithiol i wneud addasiadau rhesymol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a chanllawiau i wneud addasiadau i ddiwallu anghenion cleifion mewn amgylchiadau agored i niwed.

39. Mae sampl o sylwadau ar gael yn y blwch isod.

*...nid yw'r gyfraith yn cymhwyso addasiadau rhesymol i bawb mewn amgylchiadau agored i niwed. Er ei bod yn arfer proffesiynol da gofyn am addasiadau y gallai fod eu hangen ar unrhyw glaf (er enghraifft, i roi gofal sy'n ddiwylliannol gymwys, a bod yn ymwybodol o nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010), mae'n bwysig bod y Cyngor Optegol Cyffredinol yn gwahaniaethu rhwng y ffaith bod iaith 'addasiad rhesymol' yn benodol berthnasol i'r gyfraith ar anabledd.*

SeeAbility

'Byddai cyfeirio at ddeddfwriaeth bresennol yn rhoi eglurder i gofrestreion drwy dynnu sylw at sut mae'r ddogfen ganllaw'n ategu'r fframweithiau presennol.'

Cymdeithas yr Optometryddion

Ymateb Y Cyngor Optegol Cyffredinol

39. Rydym wedi adolygu'r defnydd o 'addasiadau rhesymol' drwy gydol y canllawiau ac wedi diwygio'r geiriad i leihau'r posibilrwydd o gamddealltwriaeth a chynyddu eglurder. Rydym wedi disodli 'addasiadau rhesymol' gydag 'addasiadau i ddiwallu anghenion cleifion'. Rydym o'r farn bod hyn yn egluro bod y canllawiau'n cyfeirio at addasiadau i ddiwallu anghenion cleifion mewn amgylchiadau agored i niwed yn hytrach na gwneud addasiadau rhesymol sy'n ofynnol yn gyfreithiol.

40. Mae pob un o'r tair set o safonau'r Cyngor Optegol Cyffredinol yn gofyn am gydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol sy'n berthnasol. Mae'n ofynnol i gofrestreion ddeall a chydymffurfio ag unrhyw gyfreithiau perthnasol gan gynnwys deddfwriaeth cydraddoldeb.

**Awgrymiadau y tu hwnt i'n cylch gwaith**

41. Cyflwynodd nifer o ymatebwyr sylwadau a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i newidiadau i Ddeddf Optegwyr 1989 gael eu rhoi ar waith, neu sy'n gyfrifoldeb i sefydliadau eraill.

42. Mae sampl o sylwadau ar gael yn y blwch ar y dudalen ganlynol.

"Y prif beth sydd ar goll yw cyfyngiad pellach ar gyflawni i gleifion sy'n agored i niwed y tu hwnt i'r rheini sy'n cael eu cydnabod ar hyn o bryd gan y Ddeddf Optegwyr a rheoliadau'r Cyngor Optegol Cyffredinol (plant dan 16 oed ac oedolion sydd wedi cofrestru gyda'u hawdurdod lleol fel rhai sydd â nam ar eu golwg neu nam difrifol ar eu golwg). Yr hyn sydd ei angen mewn gwirionedd yw mwy o reoleiddio ar unigolion nad ydynt wedi cofrestru drwy ddod â mwy o gleifion o fewn categorïau cyfyngedig ar gyfer cyflenwi."

Optegydd cyflenwi

'Mae cyllid cynaliadwy ar gyfer ffioedd profion golwg y GIG a gwerthoedd talebau yn hanfodol er mwyn sicrhau tegwch o ran mynediad a chanlyniadau."

Pwyllgor Optegol Lleol Bexley, Bromley a Greenwich

*Ymateb Y Cyngor Optegol Cyffredinol*

43. Mae newidiadau sy'n gofyn am ddiwygiadau i ddeddfwriaeth ac i'r fframwaith ar gyfer ariannu gwasanaethau gofal llygaid y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad hwn. Gwnaethom archwilio'r mater o gyflenwi i gleifion agored i niwed yn ein cais am dystiolaeth yn 2022. Ar ôl ymgynghori, daethom i'r casgliad nad oedd digon o dystiolaeth i gefnogi'r gwaith o ychwanegu at y rhestr o weithgareddau cyfyngedig a bod risgiau o ganlyniadau anfwriadol yn ymwneud â chostau a mynediad i gleifion.

**Eglurhad o'r hyn y mae 'gwaith' yn ei olygu**

44. Gwnaeth nifer o ymatebwyr gyflwyniadau a fyddai'n gwella eglurder a chywirdeb paragraff 10 y canllawiau, sy'n cyfeirio at “leoliadau y gallech weithio ynddynt”, gan nodi y gallai fod gan gofrestreion wahanol rolau neu fathau o waith nad yw'r canllawiau hyn yn berthnasol iddynt o bosibl. Er enghraifft, efallai na fydd cofrestreion sy'n gweithio mewn rhai rolau rheoli neu swyddogaethau cefn swyddfa yn dod i gysylltiad uniongyrchol â chleifion mewn amgylchiadau agored i niwed.

45. Mae sampl o sylwadau ar gael yn y blwch isod.

*“Paragraff 10: “amrywiaeth y lleoliadau rydych chi’n gweithio ynddyn nhw” - mae’n bosibl bod gan rai cofrestreion swyddi “nad ydynt yn rhai optegol...”* Felly, byddai'n ddefnyddiol diffinio a yw hyn yn cyfeirio at eu swyddi fel cofrestreion yn unig neu'n cynnwys rolau “nad ydynt yn rhai optegol...”

Cymdeithas Optegwyr Cyflenwi Prydain

"Paragraff 10...Awgrymir egluro fel a ganlyn: “Dylech ddefnyddio eich crebwyll proffesiynol i gymhwyso'r canllawiau i'ch ymarfer eich hun a'r amrywiaeth o leoliadau yr ydych yn rhoi gofal llygaid ynddynt.”

Optometreg Cymru

“*Sylw: Dileu'r gair "gwaith" a rhoi "ymgysylltu â darparu gwasanaethau gofal llygaid sy'n cael eu rheoleiddio."*

Coleg yr Optometryddion

“Awgrymu bod yr eglurhad canlynol yn well: “Dylech ddefnyddio eich crebwyll proffesiynol i gymhwyso'r canllawiau i'ch ymarfer eich hun a'r amrywiaeth o leoliadau yr ydych yn rhoi gofal llygaid ynddynt.”

Pwyllgor Optometrig Cymru

“...yn lle hynny, byddem yn awgrymu newid i “rydych chi'n darparu gofal llygaid'.

FODO - Ffederasiwn yr Optegwyr Offthalmig a Chyflenwi

*Ymateb Y Cyngor Optegol Cyffredinol*

46. Mae ein Safonau Ymarfer yn diffinio'r safonau ymddygiad a pherfformiad a ddisgwyliwn i bob optometrydd ac optegydd cyflenwi cofrestredig eu cyrraedd, ni waeth lle maen nhw’n gweithio. O'r herwydd, mae'r gofyniad i ystyried ac ymateb i anghenion cleifion mewn amgylchiadau agored i niwed yn berthnasol i bob cofrestrai. Gall hyn ymestyn i sefyllfaoedd lle nad yw cofrestreion yn darparu gofal llygaid, er enghraifft mewn rôl reoli sy'n ymateb i gŵyn.

47. Felly, nid ydym wedi diwygio'r adran hon ac rydym o'r farn mai cofrestreion sydd yn y sefyllfa orau i nodi sut mae'r canllawiau'n berthnasol i'w hamgylchiadau proffesiynol.

## Adran 2: Cadw at ffiniau rhywiol priodol

**Pan nad yw camymddwyn rhywiol yn cael ei ystyried yn "ddifrifol"**

48. Awgrymodd nifer o ymatebwyr fod y canllawiau'n pwysleisio bod unrhyw gamymddwyn rhywiol yn ddifrifol ac y dylai arwain at weithredu. Mae amgylchiadau lle nad yw'n glir o bosibl bod digwyddiad penodol yn gyfystyr â chamymddwyn rhywiol ond y gallai barhau i gael effaith negyddol ar ddiogelwch y cyhoedd neu hyder y cyhoedd. Gall 'mân' ddigwyddiadau gael effaith gronnus, a gall hyd yn oed digwyddiadau dychmygol fod yn niweidiol.

49. Mae sampl o sylwadau ar gael yn y blwch isod.

*"...mae'n ddefnyddiol tanlinellu'r ffaith y bydd angen gweithredu hyd yn oed pan nad yw'r camymddwyn, neu'r amheuaeth o gamymddwyn, yn cyfrif fel rhywbeth 'difrifol'. Dylai'r canllawiau hefyd gydnabod na fydd difrifoldeb yr ymddygiad bob amser yn hysbys, neu'n hysbys gyda'r sicrwydd a awgrymir gan eiriad paragraff 21. Yn fwy cyffredinol, efallai na fydd pobl - cydweithwyr neu ddioddefwyr - yn gwybod yn bendant bod digwyddiad neu ymddygiad penodol yn gyfystyr â chamymddwyn rhywiol. Dylai'r canllawiau nodi'n glir bod rhwymedigaethau adrodd yn berthnasol pan fydd camymddwyn rhywiol yn cael ei 'amau'."*

Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

"...mae hyd yn oed un digwyddiad yn annerbyniol."

Coleg yr Optometryddion

A ddylai'r canlynol: "...gall profiadau fod yn gronnus ac nid oes angen i gofrestreion nodi un digwyddiad mawr... ddweud: "sydd wedi profi neu'n credu eu bod wedi profi" gan y gall y sioc fod mor fawr hyd yn oed pe bai wedi'i dychmygu neu ei chamgymryd'

FODO - Ffederasiwn yr Optegwyr Offthalmig a Chyflenwi

*Ymateb Y Cyngor Optegol Cyffredinol*

50. Rydym wedi diwygio paragraff 20 o'r canllawiau drafft i'w gwneud yn glir bod unrhyw ymddygiad rhywiol tuag at gleifion yn amhriodol.

51. Rydym hefyd wedi ychwanegu paragraff ar ddechrau'r adran codi llais i egluro y dylid rhoi gwybod am bob camymddwyn rhywiol.

**Cwmpas y canllawiau**

52. Cafwyd cyflwyniadau amrywiol a oedd yn cwestiynu cwmpas y canllawiau hyn. Holodd ymatebwyr am y pethau canlynol:
- a oedd yn berthnasol mewn gwahanol gyd-destunau a lleoliadau;
- a oedd yn berthnasol i wahanol berthnasoedd nad ydynt yn rhywiol gan gynnwys awgrym y dylid ei ddiwygio i gynnwys pob perthynas;
- a oedd yn berthnasol i gleifion sy'n ymddwyn yn amhriodol tuag at gofrestreion; a hefyd
- a ddylai hefyd gydnabod gwahaniaethau diwylliannol a chyfeirio at feithrin perthynas amhriodol.

53. Mae sampl o sylwadau ar gael yn y blwch isod.

"perthynas broffesiynol" - a oes angen mwy o esboniad am hyn? Beth pe baech chi'n cwrdd â pherthynas claf mewn lleoliad neu gyd-destun arall?

Cymdeithas Optegwyr Cyflenwi Prydain

"...gellid datrys nifer o'r problemau gyda'r canllawiau hyn drwy eu hail-lunio fel rhai sy'n ymwneud â pherthnasoedd yn gyffredinol, nid dim ond rhai rhywiol."

Cymdeithas yr Optometryddion

"Rydym yn teimlo bod dyletswydd ar y Cyngor Optegol Cyffredinol i gydnabod bod diogelu'r cyhoedd, mewn amgylchiadau lle mae claf yn ceisio bod mewn perthynas neu fynd ar drywydd perthynas â chofrestrai, yn golygu cydnabod y rhagfarn y gallai hyn ei chael ar y cofrestrai sy'n darparu gofal.

Pwyllgor Optometrig Cymru

"Gallai'r canllawiau hefyd fod yn gliriach ynghylch union natur y berthynas rhwng cofrestrai a chlaf a fyddai'n ei gwneud yn amhriodol (sef, a oes angen i'r berthynas fod yn rhywiol i gael ei hystyried yn amhriodol.) *...Nid yw rhai perthnasoedd agos yn rhywiol, ac felly byddai'n ddefnyddiol i'r canllawiau fod yn glir ynghylch a yw'n cyfeirio at berthynas rywiol yn unig, neu'n berthnasol i unrhyw berthynas agos.*

*…*

*Byddai'r canllawiau'n elwa o gynnwys gwybodaeth am feithrin perthynas amhriodol, gan egluro beth yw meithrin perthynas amhriodol a'i fod yn fath o gamymddwyn rhywiol*

*…*

Efallai y bydd y canllawiau hefyd yn dymuno crybwyll y gall gwahaniaethau diwylliannol effeithio ar farn person am ffiniau personol a'r hyn sy'n briodol (gweler canllawiau'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol ar ffiniau rhywiol am ragor o wybodaeth)."

Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

*Ymateb Y Cyngor Optegol Cyffredinol*

54. Mae'r Cyngor Optegol Cyffredinol wedi ystyried cyflwyniadau ynglŷn â chwmpas y canllawiau hyn. Yn y pen draw, mae'r canllawiau hyn yn ymwneud â chynnal ffiniau rhywiol priodol ac felly mae'r ffocws ar berthnasoedd rhywiol yn hytrach na pherthnasoedd yn fwy cyffredinol. Rydym wedi gwneud hyn yn ffocws y canllawiau oherwydd y bwriedir iddynt helpu cofrestreion i gydymffurfio â'r safonau newydd a ychwanegwyd gennym ar gynnal ffiniau rhywiol priodol 15.3 (14.3) a 15.4 (14.4). Rydym wedi gwneud sawl mân ddiwygiad i'r canllawiau i egluro eu bod yn cyfeirio at "berthnasoedd rhywiol" er mwyn gwella eglurder.

55. Ni ddylai cofrestreion fod yn defnyddio eu perthnasoedd proffesiynol i ddylanwadu ar berthnasoedd rhywiol. Mae paragraff 30 o'r canllawiau'n dweud na ddylech ddefnyddio eich perthnasoedd proffesiynol i fynd ar drywydd perthnasoedd rhywiol. Mae paragraff 30 yn nodi'n glir na ddylech ddefnyddio eich perthnasoedd proffesiynol i fynd ar drywydd perthynas rywiol gyda pherthynas neu ofalwr claf.

56. Mae'r canllawiau hefyd yn mynd i'r afael ag amgylchiadau lle mae cleifion yn mynd ar drywydd cofrestreion. Mae paragraff 23 yn cynghori cofrestreion i ofyn am help os na allant atal ymddygiad digroeso yn ddiogel. Mae paragraff 41 yn cynghori cofrestreion i roi gwybod am achosion o dorri ffiniau o'r fath.

57. Mae rhywfaint o destun wedi cael ei ychwanegu ym mharagraff 22 i gydnabod bod gwahaniaethau diwylliannol yn gallu effeithio ar safbwyntiau ac ym mharagraff 21 i gydnabod meithrin perthynas amhriodol fel math o gamymddwyn rhywiol.

**Datblygu gyrfa**

58. Gofynnodd rhai ymatebwyr i ni egluro na ddylai perthnasoedd â chydweithwyr neu fyfyrwyr lesteirio na hyrwyddo datblygiad gyrfa. Tynnodd un sylw hefyd at y posibilrwydd y gallai un parti fod yn fwy agored i niwed yn y perthnasoedd hynny, gyda'r posibilrwydd o gamddefnyddio pŵer.

59. Mae sampl o sylwadau ar gael yn y blwch isod.

*"Mae paragraff 36 yn nodi bod yn rhaid i berthnasoedd â chydweithwyr neu fyfyrwyr 'beidio ag amharu ar ddatblygiad gyrfa'. Gallai hefyd fod yn ddefnyddiol egluro na ddylai fod unrhyw awgrym na goblygiad y bydd ymrwymo i berthynas â chydweithiwr penodol yn arwain at ddyrchafiad gyrfa.* Hefyd yn y paragraff hwn, gallai'r canllawiau gyfeirio at y ffaith bod perthnasoedd o'r math hwn nid yn unig 'mewn perygl o gael eu hystyried yn anghydsyniol', ond hefyd yn broblemus yn eu hanfod o ystyried y natur fregus sy'n deillio o'r anghydbwysedd pŵer.

Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

"...ddylai hyn ddweud "peidio â symud ymlaen na rhwystro"?"

FODO - Ffederasiwn yr Optegwyr Offthalmig a Chyflenwi

*Ymateb Y Cyngor Optegol Cyffredinol*

60. Rydym yn cytuno na ddylai'r cysylltiadau hyn lesteirio na datblygu gyrfa ac rydym wedi diwygio'r canllawiau yn unol â hynny. Rydym yn cydnabod, lle mae anghydbwysedd pŵer, bod potensial hefyd ar gyfer camddefnyddio pŵer, felly rydym hefyd wedi ychwanegu rhywfaint o destun ym mharagraff 15 y canllawiau i fynd i'r afael â'r pwynt hwnnw.

**Cefnogaeth i gofrestreion**

61. Roedd cyflwyniadau amrywiol yn gofyn am fwy o fanylion i gefnogi cofrestreion mewn gwahanol amgylchiadau.

62. Gofynnodd rhai ymatebwyr am ragor o fanylion ar gyfer cofrestreion sy'n cael eu cyhuddo o gamymddwyn rhywiol, gan gynnwys beth sy'n digwydd os bydd adroddiad yn cael ei wneud yn erbyn cofrestrai, a pha gymorth sydd ar gael iddynt.

63. Roedd eraill yn poeni am ddiogelwch unigolion cofrestredig a oedd yn wynebu camymddwyn gan gleifion a sicrhau bod digon o gefnogaeth iddynt.

64. Roedd cais am ragor o fanylion ynghylch sut y gallai cofrestrai herio ymddygiad amhriodol a sut i reoli canlyniadau'r her honno.

65. Mae sampl o sylwadau ar gael yn y blwch isod.

*'A ellid rhoi rhagor o fanylion am yr hyn y byddai 'herio' yr ymddygiad yn ei olygu, ac ystyried unrhyw ganlyniadau anfwriadol a allai godi o ganlyniad i gofrestrai yn herio ymddygiad rhywun.*

*…*

*Byddai rhagor o arweiniad ynghylch beth sy'n digwydd ar ôl i adroddiad am gamymddwyn rhywiol gael ei wneud yn cael ei groesawu. Gallai hyn gynnwys gwybodaeth am ba gymorth sydd ar gael i gofrestreion sydd wedi cael eu cyhuddo (a allai fod yn ffug mewn rhai achosion), a ble y gallant fynd i gael cyngor neu gynrychiolaeth."*

Coleg yr Optometryddion

"...byddem hefyd yn hoffi gweld ystyriaeth tuag at ddiogelu aelodau staff rhag cleifion a allai am lawer o resymau, fynd yn rhy bell o ran ymddygiad derbyniol, heb unrhyw fai ar y cofrestrai."

Pwyllgor Optegol Lleol Bexley, Bromley a Greenwich

*Ymateb Y Cyngor Optegol Cyffredinol*

66. Rydym yn cytuno y dylid cefnogi cofrestreion a gallant ddod o hyd i'r gefnogaeth hon gan gydweithwyr a chyflogwyr, sefydliadau proffesiynol a chynrychioliadol, indemnwyr neu yswirwyr, neu gynrychiolwyr cyfreithiol lle bo angen.

67. Os oes honiad o gamymddwyn rhywiol wedi'i wneud yn erbyn cofrestrai, dylai'r cofrestrai hwnnw geisio cyngor priodol, a allai gynnwys cyngor cyfreithiol neu gael cymorth gan ei gorff proffesiynol neu gynrychiadol.

68. Mae gan gyflogwyr ofynion cyfreithiol penodol i ddiogelu eu gweithwyr gan gynnwys cymryd camau rhesymol i'w diogelu rhag aflonyddu rhywiol, ac mae paragraffau 61-63 yn atgoffa busnesau o ddisgwyliadau, gan gynnwys pan fydd claf wedi torri ffiniau.

69. O ran herio ymddygiad amhriodol, rydym o'r farn bod paragraff 41, wedi'i ddarllen ar y cyd â chanllawiau ar wahân ar godi llais yn rhoi digon o fanylion ar gyfer y canllawiau hyn, yn enwedig o ystyried yr amrywiaeth o gyd-destunau lle darperir gofal llygaid. Efallai y bydd rôl i gyrff proffesiynol neu sefydliadau eraill gynnig mwy o fanylion neu gymorth, neu i hyn ddod yn fyw drwy DPP. Gall polisïau a gweithdrefnau yn y gweithle hefyd helpu gyda mwy o fanylion ymarferol.

**Ymddygiad amhriodol rhwng cydweithwyr**

70. Gofynnodd rhai ymatebwyr am fanylion ychwanegol i egluro ble a sut mae agweddau ar y canllawiau'n berthnasol i ymddygiad rhwng cydweithwyr, lle rydym yn diffinio ymddygiad amhriodol a lle rydym yn trafod y gofynion i godi llais a rhoi gwybod am ddigwyddiadau.

71. Mae sampl o sylwadau ar gael yn y blwch isod.

| |
|---|
| "Paragraff 19 a 20: a ddylai hwn hefyd gyfeirio at awgrymiadau rhywiol amhriodol tuag at gydweithwyr neu ganddynt?"<br><br>Cymdeithas Optegwyr Cyflenwi Prydain<br><br>"Dylai'r paragraffau dan y pennawd 'codi llais a rhoi gwybod am ddigwyddiadau' fod yn gliriach ... Nid oes sôn uniongyrchol yn yr adran hon am y gofyniad i gymryd camau pan fydd yr ymddygiad amhriodol rhwng cydweithwyr. Er y gallai hyn fod yn oblygedig o dan baragraff 42 ('mae gennych gyfrifoldeb i godi llais a chymryd camau os byddwch yn dod yn ymwybodol o ymddygiad(au) rhywiol amhriodol yn eich gweithle') hoffem ei weld yn cael ei wneud yn gwbl glir bod hyn yn cynnwys ymddygiad a gyfeirir at gydweithiwr gan gydweithiwr arall.<br><br>Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol |

*Ymateb Y Cyngor Optegol Cyffredinol*

72. Mae'r Cyngor Optegol Cyffredinol wedi ystyried y sylwadau hyn ac wedi diwygio'r canllawiau i bwysleisio bod camymddwyn rhywiol rhwng cydweithwyr yn annerbyniol. Diwygiwyd paragraff 19 (20 erbyn hyn) i egluro bod ymddygiad rhywiol digroeso rhwng cydweithwyr yn annerbyniol.

73. Mae paragraffau 41 a 42 (45 a 46 erbyn hyn) wedi cael eu diwygio i gyfeirio'n benodol at ymddygiad rhwng cydweithwyr.

**Cynnal ffiniau ar-lein**

74. Awgrymodd nifer o ymatebwyr ein bod yn ychwanegu rhywfaint o ganllawiau i fynd i'r afael yn benodol â'r cyd-destun ar-lein lle gallai ffiniau ymddangos yn llai clir.

75. Mae sampl o sylwadau ar gael yn y blwch isod.

> *“...byddai canllawiau'n cael eu croesawu ynghylch cynnal ffiniau, yn benodol ynglŷn â'r gofod digidol, y cyfryngau cymdeithasol ac ati.”*
>
> Optometreg Cymru
>
> “Er bod y canllawiau'n nodi disgwyliadau clir ynghylch cynnal ffiniau rhywiol, gellid rhoi ystyriaeth bellach i sut mae hyn yn berthnasol yng nghyd-destun cyfathrebu digidol...”
>
> Coleg yr Optometryddion

*Ymateb Y Cyngor Optegol Cyffredinol*

76. Rydym wedi ychwanegu rhywfaint o destun ym mharagraff 17 y canllawiau sy'n nodi bod egwyddorion y canllawiau hefyd yn berthnasol i ymddygiad ar-lein. Ni ddylai cofrestreion wneud unrhyw beth ar-lein na fyddent yn ei wneud yn bersonol. Rydym o'r farn bod rhagor o fanylion penodol ynghylch defnyddio cyfryngau cymdeithasol y tu hwnt i gwmpas y canllawiau hyn. Efallai y bydd rôl i sefydliadau proffesiynol gynnig y lefel hon o fanylder neu i ddarparwyr DPP helpu cofrestreion yn hyn o beth.

**Materion yn ymwneud â mynediad a dewis cleifion**

77. Mae Safon 15.4 (14.4) yn dweud, “Rhaid i chi beidio ag ymddwyn mewn ffordd rywiol ei natur gyda chleifion.” Awgrymodd rhai ymatebwyr y gallai atal unigolion cofrestredig rhag trin cleifion y mae ganddynt berthynas rywiol â nhw leihau

mynediad at ofal optegol, yn enwedig mewn lleoliadau anghysbell, lle nad oes gan bartner cofrestrai fynediad at ofal llygaid amgen o bosibl.

78. Awgrymwyd hefyd y gallai peidio â chaniatáu i gofrestreion drin y sawl y mae ganddynt berthynas rywiol ag ef gyfyngu ar ddewis y claf oherwydd efallai y bydd rhai pobl eisiau cael eu trin gan berthynas agos.

79. Gwrthododd rhai ymatebwyr a gyflwynodd sylwadau ar y thema hon ganiatâd i gyhoeddi eu cyflwyniadau, felly dim ond un dyfyniad rydym wedi'i roi isod.

> “Drwy gyfyngu ar allu cofrestreion i gynnig gwasanaethau i aelodau o'r teulu, rydych chi mewn gwirionedd yn tynnu 'dewis y claf' o'r dirwedd optegol...”
>
> Pwyllgor Optegol Lleol Bexley, Bromley a Greenwich

*Ymateb Y Cyngor Optegol Cyffredinol*

80. Mae'r safonau a ddaeth i rym ym mis Ionawr 2025 yn gwahardd yn benodol ymddygiad o natur rywiol gyda chleifion. Nod y canllawiau hyn, sy'n canolbwyntio ar ffiniau rhywiol, yw helpu cofrestreion i ddeall a chydymffurfio â'r safonau hyn. Er bod safon 15(14) yn gwahardd trin rhywun yr ydych mewn perthynas rywiol ag ef, nid yw'r safonau na'r canllawiau yn gwahardd trin aelod o'r teulu heblaw priod/partner.

81. Os bydd cofrestreion yn rhoi triniaeth i aelodau eraill o'r teulu, dylent gydnabod yr anghydbwysedd pŵer. Ar ben hynny, mae'n ofynnol i gofrestreion gynnal ffiniau priodol yn unol â safon 15(14), ac rydym yn disgwyl i gofrestreion arfer eu barn broffesiynol ym mhob rhyngweithiad.

82. Rydym yn cydnabod y gallai mynediad at ofal llygaid fod yn gyfyngedig mewn rhai lleoliadau anghysbell. Fodd bynnag, mae'r Cyngor Optegol Cyffredinol yn mynnu y gall trin cleifion yr ydych mewn perthynas rywiol â nhw beryglu diogelwch cleifion a hyder y cyhoedd ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i gofrestreion gydymffurfio â safon 15.4(14.4).

**Diffiniadau a gofynion cyfreithiol**

83. Awgrymodd rhai ymatebwyr fod y canllawiau'n cynnwys diffiniadau cyfreithiol lle mae gan dermau ystyr penodol yn y gyfraith, fel gwahaniaethu, aflonyddu ac atebolrwydd dirprwyol.

84. Mae sampl o sylwadau ar gael yn y blwch isod.

“...dylai'r canllawiau nodi'n glir y gall creu amgylchedd bygythiol, diraddiol, bychanol neu sarhaus, boed wedi'i fwriadu ai peidio, fod yn gyfystyr ag aflonyddu rhywiol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb”

Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

“Mae'r canllawiau'n cynnwys rhai termau sydd â diffiniadau cyfreithiol (ee aflonyddu rhywiol) ac eraill ddim (ee ymddygiad rhywiol amhriodol, awgrymiadau rhywiol amhriodol ac ati). Mae’n bosibl y bwriedir defnyddio'r amrywiaeth hon o dermau i ymdrin ag amrywiaeth eang o amgylchiadau, ond mae'n debygol o fod yn ddryslyd pan nad oes diffiniad ffurfiol i'r geiriau.

Cymdeithas yr Optometryddion

“Gall cofrestreion elwa o dabl sy'n crynhoi eu dyletswyddau cyfreithiol yn ôl rôl...

Coleg yr Optometryddion

*Ymateb Y Cyngor Optegol Cyffredinol*

85. Mae'r Cyngor Optegol Cyffredinol wedi ystyried lefel y manylion i'w chynnwys yn y canllawiau hyn ac mae wedi ceisio taro cydbwysedd rhwng bod yn ddefnyddiol ac osgoi rhagnodi manwl. Mae angen i'r canllawiau hyn barhau i fod yn addas ar gyfer y dyfodol a chynnig digon o le i gofrestreion arfer eu barn broffesiynol eu hunain fel sy'n ofynnol gan sefyllfaoedd unigol. Felly rydym wedi ceisio osgoi manylion rhagnodol lle bynnag y bo modd.

86. Fodd bynnag, rydym wedi ceisio gwella eglurder y canllawiau hyn. Mae'r adran sy'n disgrifio'r hyn a olygir gan 'ymddygiad rhywiol amhriodol' (paragraffau 17-20, 18-23 bellach), wedi cael ei hehangu, ac mae cyfeiriad at Ddeddf Cydraddoldeb 2010 wedi cael ei ychwanegu ym mharagraff 35 (38 erbyn hyn) y canllawiau.

87. Mae pob un o'r tair set o safonau yn gofyn am gydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol sy'n berthnasol.

General Optical Council

## Adran 5: Meysydd eraill

### Asesiad o’r effaith

88. Fe wnaethom ofyn i randdeiliaid a oedd unrhyw agweddau ar ein cynigion a allai wahaniaethu yn erbyn rhanddeiliaid sydd â nodweddion penodol. O'r 15 ymatebydd a atebodd y cwestiwn, dywedodd naw nad oedd, roedd pedwar yn ansicr, a dywedodd dau eu bod. Rhoddodd dau ymatebydd fanylion ychwanegol.

89. Mae'n anodd nodi themâu o sampl o ddau. Roedd y pryderon a godwyd yn cynnwys y posibilrwydd bod y canllawiau ar gynnal ffiniau rhywiol yn adlewyrchu gwahaniaethu cyffredinol yn erbyn dynion, yr angen am fwy o amddiffyniad i bobl ag anableddau dysgu ac anableddau eraill, a cham-drin ariannol cleifion.

90. Fe wnaethom ofyn hefyd a oedd unrhyw agweddau ar ein cynigion a allai gael effaith cadarnhaol ar randdeiliaid sydd â nodweddion penodol. O'r 13 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, roedd saith yn cytuno, roedd pedwar yn ansicr, ac roedd dau yn anghytuno. Rhoddodd chwe ymatebydd fanylion ychwanegol.

91. Er nad oedd consenswS, roedd y canllawiau'n cael eu croesawu'n gyffredinol fel rhai a oedd yn debygol o gael effeithiau cadarnhaol, a allai fod hyd yn oed yn fwy yn dilyn adborth o'r ymgynghoriad. Nodwyd y themâu canlynol o'r sylwadau:
    - cynhwysiant; a hefyd
    - ymwybyddiaeth.

92. Mae sampl o sylwadau ar gael yn y blwch ar y dudalen ganlynol.

"Bydd y canllawiau'n cefnogi'r proffesiwn i fod yn ymwybodol bob amser o randdeiliaid sydd â nodweddion penodol ac i gefnogi trafodaethau ynghylch gwendidau a fydd yn gadarnhaol i gleifion a'r proffesiwn."

Optometreg Cymru

"Nid yw'r cynigion yn nodi'r cofrestrai yn ôl unrhyw nodwedd y gellir ei diffinio drwy gydol y naill ddogfen na'r llall. Mae hwn yn gam i'w groesawu er mwyn gwneud y canllawiau mor gynhwysol â phosibl."

Pwyllgor Optometrig Cymru

"Byddant - byddant yn annog y sector bob amser i fod yn ymwybodol o nodweddion gwarchodedig (yn enwedig os nad ydynt yn amlwg ar unwaith) a gallant annog pobl â nodweddion gwarchodedig i fod yn fwy hyderus ynghylch siarad am eu gwendidau a/neu roi gwybod am unrhyw ymddygiad rhywiol annerbyniol. Bydd hyn er lles cleifion a'r proffesiynau yn y pen draw."

FODO - Ffederasiwn yr Optegwyr Offthalmig a Chyflenwi

*Ymateb Y Cyngor Optegol Cyffredinol -*

93. Nodwn nad oedd consensws ar effeithiau tebygol y darnau hyn o ganllawiau. Fodd bynnag, o'r sylwadau manwl a roddwyd gan yr ymatebwyr, rydym yn dod i'r casgliad bod unrhyw effaith negyddol bosibl yn cael ei lliniaru ac y gellir disgwyl effaith gadarnhaol.

**Y Gymraeg**

94. Fe wnaethom ofyn i randdeiliaid a fyddai'r newidiadau arfaethedig yn cael effaith, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol, ar y canlynol: (a) cyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg a (b) ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. O'r 13 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn, roedd dros hanner wedi ymateb yn gadarnhaol.

95. Rhoddodd pum ymatebydd fanylion ychwanegol. Roedd pedwar o'r rhain yn gadarnhaol y byddai cyhoeddi'r canllawiau yn Gymraeg yn cael effeithiau cadarnhaol ar y rhai sy'n defnyddio'r Gymraeg ac yn hyrwyddo ei defnydd.

96. Fe wnaethom ofyn i randdeiliaid a fyddai modd diwygio'r newidiadau arfaethedig er mwyn iddynt gael effeithiau cadarnhaol, neu fwy o effeithiau cadarnhaol, ar y canlynol: (a) cyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg a (b) ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. O'r 14 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, atebodd 11 'na' neu 'ddim yn siŵr' ac ni roddodd yr un ohonynt ragor o fanylion.

97. Fe wnaethom ofyn i randdeiliaid a fyddai modd diwygio'r newidiadau arfaethedig er mwyn iddynt beidio â chael effeithiau negyddol, neu fel bod ganddynt lai o effeithiau negyddol, ar y canlynol: (a) cyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg a (b) ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. O'r 13 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn, dim ond un oedd yn meddwl y gellid gwneud unrhyw beth i leihau unrhyw effeithiau negyddol. Dywedodd yr unig ymatebydd a roddodd fanylion ychwanegol fod y Cyngor Optegol Cyffredinol wedi cymryd camau priodol i osgoi effeithiau negyddol ar y Gymraeg.

*Ymateb Y Cyngor Optegol Cyffredinol -*

98. Rydym yn dod i'r casgliad ei bod yn annhebygol y bydd ein cynigion yn cael unrhyw effeithiau niweidiol ar siaradwyr Cymraeg.